

A green tractor with a yellow backhoe attachment is driving towards the camera on a narrow, paved road. The tractor is positioned in the center of the road. To the right of the road is a dense green hedge. In the background, a large stone church with arched windows and a gabled roof is visible. The sky is blue with some clouds. The overall scene is rural and peaceful.

Ffermio a ffyrdd cyhoeddus

Mae'r daflen hon yn cael ei llunio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Byddwn yn golygu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy pan ddwedwn 'ni'.

Cyflwyniad

Un o'r newidiadau yn y diwydiant amaethyddol yn y blynyddoedd diweddar ydi bod cerbydau mwy a thrymach yn defnyddio ffyrdd cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig. Mae'r effaith mwyaf wedi bod ar ffyrdd bach yn y wlad, llawer ohonynt heb eu creu i gario cerbydau mor fawr, ac mae'r difrod yn amlwg.

Mae newidiadau o ran dulliau gweithio yn y diwydiant amaethyddol hefyd wedi peri problemau gyda ffyrdd, ac mae'n rhaid i ni benderfynu ar beth orau i wario ein harian.

Dim ond trwy gydweithio gallwn gynnal ein ffyrdd.

Bydd y daflen hon yn ymdrin â'r pethau gallwch chi eu gwneud sy'n cael effaith uniongyrchol ar y ffyrdd yn Siroedd Conwy a Dinbych. Bydd y daflen yn egluro'r materion a sut hoffem gael eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad.



Ein grym cyfreithiol

Ni yw'r awdurdod priffyrdd dros bob ffordd fach o fewn ein ffiniau. Golyga hyn o dan Ddeddf Priffyrdd 1980, mae'n gyfrifoldeb cyfreithiol arnom i warchod hawliau pawb sy'n defnyddio ein ffyrdd, gan gynnwys gyrwyr, cerddwyr, beicwyr, marchogwyr ac ati. Llywodraeth Cynulliad Cymru ydi'r awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffyrdd (priffyrdd sydd fel arfer yn cysylltu dwy ddinas neu fwy, porthladdoedd, meysydd awyr ac ati).

Gallwn ofyn i chi symud unrhyw beth sy'n peri niwsans neu rwystr, o fewn hyd amser rhesymol. Byddwn yn gofyn i chi gael gwared ar rywbeth ar unwaith os yw'n achosi perygl.

Mae'n hynod bwysig bod pobl yn gallu defnyddio ein ffyrdd yn ddiogel, a gall unrhyw berygl, niwsans neu rwystr ddod ag effeithiau difrifol. Os gofynnwn i chi symud rhywbeth ac nad ydych yn gwneud hyn, mae'r grym gennym i symud yr eitem a bydd rhaid i chi dalu ein costau am wneud hyn.

Cyfrifoldeb cyfreithiol

Fe allwn ac fe wnawn gymryd camau yn eich erbyn pe baech un achosi perygl un ai ar y ffordd neu wrth ymyl y ffordd. Os na chymrwch y camau priodol i atal rhywbeth rhag bod yn berygl, neu os nad ydych yn cadw at y gyfraith ar ffyrdd a bod damwain, efallai bydd hi'n gyfrifoldeb cyfreithiol arnoch i dalu iawndal efallai na fydd eich polisi yswiriant yn ei gynnwys.

Ni fedrwn adael i sefyllfa aros fel mae wedi i rywun ei riportio, gan y buasem yn gyfrifol am hyn yn ôl y gyfraith. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni gymryd camau yn erbyn unrhyw un sy'n achosi problem.



Coed a gwrychoedd ar ymyl y ffordd



Coed

Chi sy'n gyfrifol am unrhyw wrychoedd a choed ar y cloddiau sydd gennych ar hyd ffordd. Ni ddylech adael i goed dyfu mewn ffordd sy'n golygu eu bod:

- yn berygl;
- ar ffordd cerbydau a cherddwyr;
- yn blocio golwg gyrwyr;
- yn blocio golau o unrhyw oleuadau stryd;
- yn blocio arwyddion ffordd.

Rydych yn gyfrifol am atal unrhyw un sy'n defnyddio ffyrdd rhag niwed o unrhyw goed sydd ar eich tir sy'n simsian. Rhaid i chi

archwilio coed yn rheolaidd i atal damweiniau. Efallai bydd rhai coed wedi eu diogelu gan gyfreithiau fel Gorchmynion Diogelu Coed (TPOs). Gofynnwch i ni am gyngor os nad ydych yn siŵr am goeden.

Torri gwrychoedd

O dan Ddeddf Priffyrdd 1980, efallai byddwn yn gofyn i chi dorri unrhyw wrychoedd sy'n tyfu allan ar y briffordd. Yn unol â 'Well-Maintained Highways: A Code of Good Practice for Highway Maintenance' Bwrdd Ffyrdd y DU a'r Grŵp Cyswllt Ffyrdd, a'r pryderon amgylcheddol cynyddol am adar yn nythu a mamaliaid bach eraill sy'n bridio yn y gwrychoedd, gofynnwn i chi drimio eich gwrychoedd yn ystod yr hydref a'r gaeaf.

Efallai byddwn yn gofyn i chi drimio eich gwrychoedd yn ystod y gwanwyn a'r haf hefyd os ydynt yn berygl.

Pan fyddwch yn torri eich gwrychoedd, rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn cael gwared ar unrhyw doriadau sy'n disgyn ar



ffordd neu lwybr troed. Mae toriadau gwrychoedd wedi eu gadael ar ffyrdd yn beryglus gan y gallant anafu rhywun a gallai beicwyr ddod yn sownd yn eu hunfan pe bai drain yn y toriadau a bod y rhain yn achosi pynjar. Rhaid i chi hefyd gael gwared ar unrhyw doriadau sy'n syrthio mewn i ffosydd ar ochr y ffordd, gafaelion draenio a gyliau ymyl y ffordd.

O dan adran 149 Deddf Priffyrdd 1980, os na chewch wared ar y toriadau, efallai byddwn ni'n gwneud hyn ac yn codi arnoch am wneud.

Mwd ar ffyrdd



Gall mwd ar ffyrdd fod yn beryglus. Byddwn ni neu'r heddlu yn gofyn i chi glirio'r mwd. Dylech glirio'r mwd yn iawn, er enghraifft trwy ddefnyddio chwistrell ddŵr (ond nid yn ystod tywydd rhewi) a chrafwyr iard (cyn belled nad ydych yn difrodi wyneb y ffordd).

O dan adran 149 Deddf Priffyrdd 1980, os nad ydych yn clirio'r mwd mewn amser rhesymol

efallai byddwn yn trefnu cael gwared ar y mwd a bydd rhaid i chi dalu'r costau llawn.

Mwd ar olwynion

Dylech gael gwared ar dociau o faw a phridd oddi ar eich cerbydau cyn mynd â nhw ar y ffyrdd. Gallai creu llecyn caled gerllaw eich gatiau helpu efo hyn ond efallai bydd angen caniatâd cynllunio arnoch. Gofynnwch am gyngor oddi wrth ein gwasanaethau cynllunio.

Mwd a dŵr yn rhedeg o gaeau

Chi sy'n gyfrifol am y mwd a'r dŵr sy'n rhedeg o'ch caeau a'ch gatiau ar y ffyrdd, ac efallai bydd rhaid i chi wneud rhywbeth i atal hyn rhag

digwydd. Yn ystod y gaeaf, gall dŵr sy'n rhedeg o gaeau ac adwyon ar y ffordd wneud y ffyrdd yn rhewllyd ac yn beryglus i ddefnyddwyr eraill y ffordd. Hefyd os yw eich tir wedi ei drin i fyny at ei ymylon ac efo llethr lawr at ffordd, gall hyn achosi problemau, er enghraifft gall dŵr redeg yn gyflym ar y ffordd.

Weithiau, gall meddwl mymryn ymlaen llaw atal problem rhag digwydd!



Symud anifeiliaid a glanhau ar eu hôl

Os oes gennych wartheg neu anifeiliaid eraill sy'n croesi neu'n teithio ar hyd y ffordd yn rheolaidd, chi sy'n gyfrifol am eu symud yn ddiogel ac am lanhau unrhyw faw. Mewn mannau croesi rheolaidd pan fo gwelededd yn wael, efallai gallwn ddarparu arwyddion rhybuddio priodol. Gofynnwch ein cyngor am hyn.

Rhaid i chi gymryd gofal i atal mwd rhag hel trwy lanhau eich cerbydau ac unrhyw ffyrdd, ond byddwch yn ofalus nad ydych yn defnyddio offer a allai ddifrodi'r ffordd.

Defnyddio cerbydau fferm ar ffyrdd

Cerbydau llydan

Peidiwch â defnyddio cerbydau sy'n rhy lydan i'r ffordd. Os ydych yn gyrru dros ymylon gwellt ar lonydd cul, mae hyn yn achosi mwd i wasgaru ar y ffordd, yn gwario ymyl y ffordd ac fe allai ddifrodi gafaellion draenio, peipiau a ffosydd agored, sy'n achosi llifogydd ar y ffordd. O dan adran 59 Deddf Priffyrdd 1980 gallwn hawlio iawndal os achoswch ddifrod



helaeth i'r ffordd am fod eich cerbyd yn rhy drwm neu'n rhy lydan.

Gorlwytho cerbydau

Peidiwch â gorlwytho trelars, chwalwyr tail ac ati. Rhaid i chi wneud yn siŵr bod unrhyw beth a gariwch wedi ei ddiogelu'n iawn fel nad yw'n achosi perygl, a gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw at Ddeddf Trafnidiaeth Ffyrdd 1988 a'r rheoliadau cysylltiedig.



Ffositydd a draeniau

Mae cael draeniau da yn hanfodol ar gyfer cynnal ffyrdd mewn modd fforddiadwy. Mae llawer o ardaloedd yng nghefn gwlad yn dibynnu'n drwm ar ffositydd i sugno dŵr. Mae ffositydd effeithiol yn bwysig i gadw ffyrdd mewn cyflwr da.



Fel arfer chi sy'n gyfrifol am unrhyw ffos ymyl ffordd sydd wrth ymyl eich tir. Nid ydych yn gyfrifol am ffositydd:

- os ydym wedi creu'r ffos i ddraenio'r ffordd;
- os yw'r ffos ar dir sydd yn eiddo i ni;
- os ydym wedi bod yn cynnal a chadw'r ffos dros y blynyddoedd.

Os oes dadl ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol, a hyd yn oed os yw'r ddau ohonon yn defnyddio'r ffos (ni i ddraenio dŵr o'r ffyrdd a chi u ddraenio dŵr o'ch tir), mae'r gyfraith yn nodi mai chi sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r ffos, oni bai gallwch brofi'n wahanol.

Ni ddylech osod peipiau mewn ffositydd heb gysylltu efo ni a chael ein caniatâd.

Gallai peipiau'r maint anghywir achosi rhwystr a gallech fod yn gyfrifol

yn ôl y gyfraith am eu newid. Dylech lanhau eitemau fel griliau, cefnfuriau a phlatiau dal yn rheolaidd. Dylech hefyd gadw llygad ar y draeniau yn rheolaidd, yn enwedig yn yr hydref, gan efallai bydd rhaid i chi gael gwared ar bethau sy'n eu blocio, fel dal ac ati.

Dyfnnder ffosydd, pa mor aml dylech eu clirio a beth i'w wneud efo'r pridd a godwch

Dylech gadw'r dyfnnder cywir mewn ffosydd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddraenio dŵr yn effeithiol. Dylech glirio ffosydd yn rheolaidd a chael gwared ar unrhyw rwystrau a allai stopio dŵr rhag llifo'n iawn. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi unrhyw afaelion draenio yn ôl ar ôl i chi glirio ffos fel gall y dŵr redeg yn rhwydd oddi ar y ffordd ac i mewn i'r ffos.



Pan dynnwch unrhyw beth o'r ffos, fel pridd ac ati, dylech fynd ag o ymaith. Bydd hyn yn atal yr un deunydd rhag llifo nôl i'r ffos neu ei wthio nôl mewn gan gerbydau sy'n pasio.

Pethau eraill i'w hystyried

Cyngor ar arwyddion ffyrdd a diogelwch pan fyddwch yn gweithio ar neu wrth ymyl ffordd

Gall gweithio ar neu wrth ymyl ffordd ei gwneud hi'n llai diogel i gerbydau a cherddwyr symud yn rhwydd. Dylech gymryd pob cam rhesymol i wneud yn siŵr bod cyn lleied o risg a phosibl i eraill.

Gall ein Hadran Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau roi cyngor i chi ar:

- yr arwyddion sydd angen i chi eu defnyddio pan fyddwch yn gwei ar ffordd (yn unol â phennod 8 y Llawlyfr Arwyddion Traffig);
- gosod unrhyw arwyddion rhybuddio cyn dechrau ar unrhyw waith a fydd yn effeithio ar y ffordd, a'u symud ar ddiwedd bob dydd, hyd

yn oed os byddwch yn gweithio'r diwrnod canlynol;

- lle dylech osod arwyddion rhybuddio cyn i chi ddechrau ar unrhyw waith;
- y goleuadau rhybuddio dylech eu defnyddio ar eich cerbyd a'r dillad diogelwch dylech eu gwisgo, fel siacedi a festiau llachar; a'r drwydded neu ganiatâd priodol sydd ei angen arnoch i wneud gwaith penodol, a'r rhybudd sydd angen i chi ei roi i ni.

Os hoffech gyngor, cysylltwch â'n Tîm Gwasanaeth Cwsmer drwy ffonio 01492 575337 neu drwy ebostio affch@conwy.gov.uk



Gosod peipiau a chloddio

O dan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1980, rhaid i chi gael y drwydded briodol cyn gosod peipen, er enghraifft ar gyfer cyflenwad dŵr neu drydan preifat neu osod peipen ddraenio mewn ffordd.

O dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 rydym yn gyfrifol am gydlynu unrhyw waith ar y ffordd, felly mae'n rhaid i chi'n rhybuddio am unrhyw waith y bwriedwch ei wneud.

Mae'n drosedd gwneud unrhyw waith heb drwydded a chaniatâd priodol.

Difrod i'r ffordd

Dylech ddweud wrthym yn syth am unrhyw ddifrod rydych wedi ei achosi i'r ffordd.



Ein cyfrifoldebau ni a'ch cyfrifoldebau chi

Ein cyfrifoldeb ni	Eich cyfrifoldeb chi	Canllaw cyffredinol
Rydym yn gyfrifol am ddiogelu hawliau defnyddwyr ffordd. Os ydych yn cyflawni trosedd o dan Ddeddf Prifffyrdd 1980 gallwn gymryd camau ac adfer y costau am gymryd y camau hyn. Mae gan yr heddlu hefyd bwerau o dan Ddeddf Prifffyrdd 1980 a Deddf Trafnidiaeth Ffyrdd 1988.	Rhaid i chi wneud popeth y gallwch i atal toriadau gwrychoedd, mwd a dŵr wyneb rhag mynd ar ffyrdd. Rhaid i chi wneud popeth y gallwch i atal difrod i ffyrdd, ffosydd a nodweddion cysylltiedig fel arwyddion ffyrdd, waliau, pontydd ac ati.	Dylech glirio unrhyw doriadau gwrychoedd, mwd ac ati oddi ar y ffordd ac atal dŵr rhag rhedeg ar y ffordd yn ystod y diwrnod gwaith (a bob amser ar ddiwedd y diwrnod gwaith). Gwnewch yn siŵr bod yr offer byddwch ei angen gennych i wneud unrhyw waith, a'r offer cywir ar gyfer y tywydd.
Byddwn yn dweud wrth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) os byddwch yn torri unrhyw amodau Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a chyfreithiau eraill sy'n rhoi pobl mewn perygl.	O dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, rydych yn gyfrifol am iechyd a diogelwch unrhyw un gall eich gwaith effeithio arnynt, gan gynnwys chi eich hun, eich teulu a'ch gweithwyr.	Defnyddiwch arwyddion ffyrdd yr ydym ni wedi eu cymeradwyo yn unig. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cymryd pob cam rhesymol i weithio'n ddiogel. Os ydych wedi defnyddio contractwr, gwnewch yn siŵr eich bod yn cytuno cyn iddynt ddechrau ar y gwaith pwy sy'n gyfrifol am unrhyw beth a allai effeithio ar y ffordd, gan gynnwys bod â'r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus priodol.

Nid yw hyn yn rhestr lawn o'ch cyfrifoldebau. Nid yw cadw at y pwyntiau hyn yn golygu nad oes gennych gyfrifoldeb cyfreithiol dros bethau eraill, ond gallai swyddog ddefnyddio'r pwyntiau hyn fel rhestr wirio pam maent yn ymweld ag ardal mae rhywun wedi gwneud cwyn yn ei chylch.


Pwy i gysylltu â nhw

I drafod unrhyw waith rydych am ei wneud ac a fyddai'n gallu effeithio ar ddefnyddwyr y ffyrdd, a wnewch chi gysylltu â'n Tîm Gwasanaeth Cwsmer. Bydd hyn yn ein helpu i ddelio ag unrhyw faterion cyn iddynt ddatblygu i fod yn broblemau. Cewch hefyd wybod pwy i gysylltu â nhw os ydych yn derbyn unrhyw gwynion. Rydyn ni'n dymuno cydweithio â chi i wneud yn siŵr bod y ffyrdd yn ddiogel a bod pawb yn gallu eu defnyddio.

Tîm Gwasanaeth Cwsmer :

Ffôn: 01492 575337

Ebost: affch@conwy.gov.uk



Rhoddir trwydded ddilysiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurfi drydydd partion; a Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.

You are granted a non-exclusive, royalty free, revocable licence solely to view the Licensed Data for non-commercial purposes for the period during which Conwy County Borough Council makes it available; You are not permitted to copy, sub-license, distribute, sell or otherwise make available the Licensed Data to third parties in any form; and Third party rights to enforce the terms of this licence shall be reserved to Ordnance Survey.